Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 187(2)(m) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU DRAFFT

2016 Rhif (Cy.)

GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Ehangu Ystyr "Gweithiwr Gofal Cymdeithasol") 2016

DRAFT

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae adran 79(2)(b) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ("y Ddeddf") yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau i ddarparu bod personau penodol i gael eu trin fel gweithwyr gofal cymdeithasol.

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu mai'r personau sydd i gael eu trin fel gweithwyr gofal cymdeithasol yw'r rhai a ddisgrifir ym mharagraffau (a) i (l) o adran 79(3) o'r Ddeddf. Mae'r rheini yn cynnwys personau sydd wedi eu dynodi'n unigolion cyfrifol gan ddarparwyr gwasanaethau; personau sy'n ymgymryd â gwaith at ddibenion swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol (neu â'r ddarpariaeth o wasanaethau sy'n debyg i'r rheini a ddarperir wrth arfer y swyddogaethau hynny); personau sy'n ymgymryd â darparu gofal a chymorth personol nad ydynt wedi eu rheoleiddio i unrhyw berson; personau sydd wedi eu cofrestru fel gwarchodwyr plant neu fel darparwyr gofal dydd i blant; personau sy'n rheoli ymgymeriad neu sydd wedi eu cyflogi mewn ymgymeriad sy'n cynnal busnes cyflogi neu asiantaeth gyflogi mewn cysylltiad â'r ddarpariaeth o ofal a chymorth personol i unrhyw berson yng Nghymru; myfyrwyr gwaith cymdeithasol penodol ac arolygwyr gwasanaethau gofal cymdeithasol penodedig.

Mae'r personau a grybwyllir uchod wedi eu pennu'n weithwyr gofal cymdeithasol at ddibenion

swyddogaethau Gofal Cymdeithasol Cymru ("GCC") o dan adrannau 68(2), 112, 114 a 116 o'r Ddeddf. O dan adran 68(2) o'r Ddeddf, rhaid i GCC arfer ei swyddogaethau gyda golwg ar hybu a chynnal safonau uchel yn y ddarpariaeth o wasanaethau gofal a chymorth, safonau uchel o ymddygiad ac ymarfer ymhlith gweithwyr gofal cymdeithasol, safonau uchel o ran hyfforddi gweithwyr gofal cymdeithasol a hyder y cyhoedd mewn gweithwyr gofal cymdeithasol. Mae adran 112 o'r Ddeddf yn darparu bod rhaid i GCC lunio a chyhoeddi codau ymarfer sy'n pennu safonau ymddygiad ac ymarfer a ddisgwylir oddi wrth weithwyr gofal cymdeithasol ac unrhyw bersonau sy'n cyflogi neu sy'n ceisio cyflogi gweithwyr gofal cymdeithasol. Mae adran 114 o'r Ddeddf yn rhoi pŵer i GCC i wneud rheolau i gymeradwyo cyrsiau penodol ac mae adran 116 yn nodi swyddogaethau eraill GCC mewn cysylltiad ag addysg a hyfforddiant.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

DRAFFT

Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 187(2)(m) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU DRAFFT

2016 Rhif (Cy.)

GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Ehangu Ystyr "Gweithiwr Gofal Cymdeithasol") 2016

Gwnaed	***
Yn dod i rym	***

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 79(2)(b) a 187(1)(b) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016(**1**) yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Yn unol ag adran 187(2)(m) o'r Ddeddf honno, gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddo drwy benderfyniad.

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Ehangu Ystyr "Gweithiwr Gofal Cymdeithasol") 2016.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar [ ].

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn—

(**1**) 2016 dccc 2.

DRAFT

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016;

ystyr "GCC" ("*SCW*") yw Gofal Cymdeithasol Cymru (a enwyd gynt yn Gyngor Gofal Cymru) fel y'i hailenwyd gan adran 67(3) o'r Ddeddf.

Personau sydd i gael eu trin fel gweithwyr gofal cymdeithasol

3. At ddibenion swyddogaethau GCC o dan adrannau 68(2), 112, 114 a 116 o'r Ddeddf yn unig, mae personau o unrhyw un neu ragor o'r disgrifiadau ym mharagraffau (a) i (l) o adran 79(3) o'r Ddeddf i gael eu trin fel gweithwyr gofal cymdeithasol.

Enw
Teitl y Gweinidog, un o Weinidogion Cymru

Dyddiad

DRAFT